

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Swyddfa'r UE

**Materion Ewropeaidd**

Rhifyn 30 - Haf/Hydref 2014

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyflwyniad



## **Y Fonesig Rosemary Butler AC**

### **Y Llywydd**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 30 o'n cylchlythyr, Materion Ewrop, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Roedd yn ffrind ac yn anrhydedd cymryd rhan yn y digwyddiad ar 16 Awst i agor Cofeb Cymru yn Langemark, Fflandrys, i'r milwyr o Gymru a gollodd eu bywydau yng Nghaeau Fflandrys yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd dros 1,000 o bobl o Gymru a Fflandrys yn y seremoni, gan gynnwys tri arweinydd y gwrthbleidiau yn y Cynulliad, Andrew RT Davies AC, Leanne Wood AC a Kirsty Williams AC, ac wrth gwrs, Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC.

Byddaf i a'm cyd-Gomisiynwyr, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, yn mynd i ddiwyddiad coffa arbennig yn Fflandrys fis nesaf, ar ôl derbyn gwahoddiad gan Lywydd Senedd Fflandrys, Jan Peumans. Dyma enghraifft arall o'r cydweithrediad cryf a'r cynhesrwydd rhwng y ddwy wlad.

Ers etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai, mae agenda Brwsel wedi bod yn llawn trafodaethau lefel uchel ynghylch cwestiynau a swyddi sefydliadol. Gan gymryd y bydd pethau'n mynd yn iawn yng ngwrandawiadau Senedd Ewrop fis nesaf, disgwylir i'r Comisiwn Ewropeaidd newydd ddod i rym o dan y Darpar-lywydd Jean-Claude Juncker ym mis Tachwedd. Mae'r gynrychiolaeth isel o Gomisiynwyr benywaidd, sy'n debygol o fod yn llai na thraean o'r cyfanswm, yn siomedig iawn. Yn 2012 lansiais yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus yng Nghymru sy'n ceisio dileu'r rhwystrau sy'n wynebu menywod mewn bywyd cyhoeddus, ac rwyf wedi ysgrifennu at y Darpar-lywydd Juncker yn cynnig rhannu'r gwaith hwn â'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'n bwysig fod ein Pwyllgorau, ein grwpiau gwleidyddol a'n Haelodau Cynulliad unigol yn ymgysylltu â Senedd newydd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd. Aeth cabinet yr wrthblaid, Plaid Cymru, yn ogystal â'm dirprwy David Melding AC, ar ymweliad â Brwsel ddechrau'r mis i gwrdd ag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop. Mae ymweliad aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym Mharis i drafod yr arolwg PISA a materion eraill o bwys i Gymru yn enghraifft arall o ryngweithio cadarnhaol gan y Cynulliad.

Er bod NATO wedi bod yn yr holl benawdau newyddion yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi croesawu nifer o bwysigion i'r Cynulliad.

# Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy:** Roedd yr ymchwiliad hwn yn ystyried cydnerth a chynaliadwyedd yr arferion a'r polisiâu rheoli tir yng Nghymru. Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2013, cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth yn y Senedd ac mewn lleoliadau eraill. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar 19 Mai a chafwyd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf.
- **Ymchwiliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig:** Mae'r ymchwiliad hwn yn ymwneud ag effeithiau posibl cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer rheoleiddio'r trefniadau o ran cynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig ar Gymru a'r cynigion a wnaed yn y Cynllun Gweithredu ar ddyfodol cynhyrchu organig yn yr UE. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried effeithiau posibl y cynigion ar y sector organig yng Nghymru; ystyried yr argymhellion ar gyfer y newidiadau i'r cynigion cyfreithiol a gyhoeddwyd; gweithredu fel fforwm ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddyfodol cynhyrchu organig yn yr UE. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am dystiolaeth gan unigolion a sefydliadau cyn sesiwn dystiolaeth lafar ar 13 Tachwedd.
- **Polisi morol a physgodfeydd:** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu polisi morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yng Nghymru. Cynhelir sesiynau dilynol pellach ddechrau 2015.
- **Tyfu cnydau GMO:** Yn dilyn cytundeb Cyngor y Gweinidogion ar safbwynt negodi ynghylch cynigion i ddiwygio'r broses awdurdodi ar gyfer tyfu cnydau GMO, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau briffio ffeithiol gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cynnwys y diwygiadau arfaethedig.
- **Gwahardd rhwydi drifft:** Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi rheoliad i atal y gwaharddiad ar rwydi drifft, ysgrifennodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at Lywodraeth Cymru i egluro ei ymateb i'r cynigion. Bydd y Pwyllgor yn parhau i wyllo'r cynnig hwn gyda Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad.

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE ar gyfer 2014-2020:** roedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i Gymru o dan nifer o raglenni'r UE, gan gynnwys Erasmus+, Creative Europe, Interreg a Chyfleuster Cysylltu Ewrop / Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Cyhoeddwyd yr adroddiad (a chafodd ei lansio yng Nghanolfan Gelfyddau Chapter) ym mis Gorffennaf 2014 a chynhaliwyd dadl ar ymateb Llywodraeth Cymru ar 17 Medi.
- **Ymchwiliad i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi:** Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo allforion gan fusnesau yng Nghymru a hwyluso buddsoddiad uniongyrchol o dramor, gan gynnwys gwaith trawslywodraethol o fewn y DU. Mae'r ymchwiliad yn ystyried sut y mae'r cymorth mewnol presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cymharu â'r dull a ddefnyddiwyd yn flaenorol drwy Awdurdod Datblygu Cymru a Masnach Cymru Rhyngwladol. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod tymor yr hydref.



## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

- **Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel:** Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau tystiolaeth ac ymweliad ym mis Tachwedd 2013 ac yn y gwanwyn eleni. Disgwylir i'r ymchwiliad ddod i ben a chyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2014.
- **Ymweliad â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.** Ymwelodd cadeirydd y Pwyllgor, Ann Jones AC, a rhai o aelodau'r Pwyllgor â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym Mharis ym mis Medi i drafod canlyniadau'r arolwg PISA a materion eraill.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses o wneud penderfyniadau'r UE:** Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 6 Mawrth, a chafwyd dadl ar ymateb Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mehefin.
- **Adroddiad ar Sybsidiaredd:** Nododd y Pwyllgor yr adroddiad monitro ar y materion sybsidiaredd sy'n berthnasol i Gymru a ddaw o gynigion deddfwriaethol drafft yr UE ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2013 a mis Ebrill 2014 yn ei gyfarfod ar 19 Mai. Caiff yr adroddiad monitro nesaf, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi 2014, ei drafod yn ystod tymor yr hydref.
- **Fforwm EC-UK:** Aeth Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, i gyfarfod diweddaraf Cadeiryddion Pwyllgorau'r UE (neu gyfwerth) yn y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig, a gynhaliwyd ar 9 Mehefin yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Y Pwyllgor Cyllid

- **Cyllid Cymru:** Roedd yr ymchwiliad hwn i Cyllid Cymru yn ystyried ei rôl yn y gwaith o roi cynllun micro-gyllid JEREMIE ar waith, wedi'i gefnogi gan gyllid ERDF a Banc Buddsoddi Ewrop, o dan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2014.
- **Cyllid Addysg Uwch:** Lanswyd yr ymchwiliad hwn yn ystod haf 2013, gan gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth yn ystod yr hydref a'r gwanwyn. Mae Addysg Uwch Cymru wedi darparu rhagor o dystiolaeth, gan egluro sut y mae'n defnyddio ac yn cymryd rhan yn rhaglenni ariannu amrywiol yr EU. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2014. Ym mis Gorffennaf 2014, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch a chytunwyd ar nifer o gamau gweithredu dilynol.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn a bydd yn parhau gyda'r gwaith yn nhymor yr hydref. Fel rhan o'r ymchwiliad bydd y Pwyllgor yn ystyried arferion gorau yng ngwledydd eraill yr UE o ran cyflwyno technolegau newydd i systemau gofal iechyd.

## **Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd**

- 4 Mehefin Nododd y Cynulliad yr adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau'r UE.
- 17 Mehefin Gwnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ddatganiad am ddyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, ac yna cafwyd dadl.
- 8 Gorffennaf Gwnaeth y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddatganiad am Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ac yna cafwyd dadl.
- 17 Medi Nododd y Cynulliad yr adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Gyfleoedd Cyllido yr UE ar gyfer 2014-2020.

*Er gwybodaeth: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml yn natganiadau'r Gweinidogion ac mewn cwestiynau i Weinidogion.*

## Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 9 Mehefin Cyfrannodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, at gyfarfod fforwm EC-UK Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd Seneddau'r DU a Seneddau Datganoledig, a gynhaliwyd gan Dŷ'r Cyffredin.
- 12-14 Mehefin Aeth Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad, i gyfarfod Gweithgor CALRE ar e-ddemocratiaeth a gynhaliwyd yn Senedd Andalucía yn Seville, lle gwnaeth gyflwyniad ar y Cynulliad fel enghraifft o e-ddemocratiaeth.
- 20 Mehefin Aeth Rosemary Butler AC, y Llywydd, i gyfarfod Pwyllgor Sefydlog CALRE ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 24 Mehefin Roedd Rhodri Glyn Thomas AC yn banelydd mewn cynhadledd ar lywodraethu economaidd yr UE a datganoli cyllidol a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau.
- 25-26 Mehefin Aeth Mick Antoniw AC i Gyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau yn Senedd Ewrop ym Mrwsel.
- 2 Gorffennaf Cadeiriodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, drafodaeth panel mewn cynhadledd ar rôl y seneddau rhanbarthol yn yr UE ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 3-4 Gorffennaf Roedd cyfranogiad Mick Antoniw AC yn rhan o ddirprwyaeth wleidyddol lefel uchel o Bwyllgor y Rhanbarthau, a oedd yn ymweld â Kiev yn Wcráin.
- 15-17 Awst Aeth Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad, Andrew RT Davies AC, arweinydd yr wrthblaid a'r Ceidwadwyr Cymreig, Leanne Wood AC, arweinydd Plaid Cymru, a Kirsty Williams AC, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, i ymweld â Pilckem Ridge yn Langemark, Fflandrys, er mwyn bod yn bresennol yng ngwasanaeth o gysegriad Cofeb newydd Cymru i'r dynion a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Agorodd Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, a Geert Bouregeois, Gweinidog-lywydd Llywodraeth Fflandrys, y gofeb newydd yn swyddogol.
- 1-3 Medi Aeth Cabinet yr Wrthblaid, Plaid Cymru, (Leanne Wood AC, Elin Jones AC, Llyr Gruffydd AC, Rhun ap Iorwerth AC a Simon Thomas AC) i ymweld â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd yn Senedd Ewrop a Thŷ Cymru.
- 4 Medi Rhoddodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, y prif anerchiad ar *Ddyfodol Cyfansoddiadol Ynysoedd Prydain* fel siaradwr gwadd mewn digwyddiad "Collaborative Scotland" yng Nghaeredin.
- 9-10 Medi Aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, i ymweld â Brwsel ar gyfer cyfarfodydd gydag Aelodau o Senedd Ewrop ar gyfer Cymru, swyddogion yr UE, a chynrychiolwyr eraill o Frwsel.
- 17-20 Medi Arweiniodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, ddirprwyaeth o *Glymblaid Menywod mewn Democratiaeth* y Cynulliad ar ymweliad astudio i Reykjavik, i ddysgu mwy am brofiad cadarnhaol Senedd Gwlad yr Iâ a'i record o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau.
- 19 Medi Bydd Rhodri Glyn Thomas AC yn mynd i gyfarfod Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau yn Fflorens.
- 28-29 Medi Bydd Mick Antoniw AC yn cymryd rhan mewn cyfarfod CORLEAP (Partneriaeth Ddwyreiniol) a drefnir gan Bwyllgor y Rhanbarthau yn Nhiblisi, Georgia.

- 3 Hydref Bydd Rhodri Glyn Thomas AC ym Mrwsel ar gyfer cyfarfod Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau.
- 7-8 Hydref Mae'n debygol y bydd Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn mynd i Gyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 9 Hydref Bydd Rhodri Glyn Thomas AC yn cadeirio sesiwn banel (a fydd yn cynnwys siaradwyr o Fanc Buddsoddi Ewrop) ar offerynnau ariannol yn yr UE ar gyfer 2014-2020, ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel yn ystod Diwrnodau Agored Wythnos Dinasoedd a Rhanbarthau 2014.
- 16-17 Hydref Bydd Rosemary Butler AC, y Llywydd, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, yn cymryd rhan mewn digwyddiad i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yng ngorllewin Fflandrys a drefnir gan Senedd Fflandrys.
- 19-21 Hydref Bydd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn arwain dirprwyaeth o Aelodau'r Cynulliad i Gyfarfod Llawn Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon a gynhelir yn Ashford, Caint, ac yn Ypres Salient, Fflandrys, i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
- 27-31 Hydref Bydd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, yn arwain dirprwyaeth o Gomisiynwyr y Cynulliad ar ymweliad cyntaf y Cynulliad â Chanada. Bydd yr ymweliad yn cynnwys ymweliadau swyddogol â'r Senedd Ffederal yn Ottawa, yn ogystal â Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick yn Fredericton.



## Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

- 20 Mehefin Cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, ag Uwch-gomisiynydd Jamaica, ei Hardderchowgrwydd Aloun Ndombet, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei hymweliad â Chymru.
- 26 Mehefin Cyfarfu y Fonesig Rosemary Butler, y Llywydd, â Llysgennad yr Almaen, ei Ardderchowgrwydd Dr Peter Ammon.
- 30 Mehefin Cynhaliodd Pwyllgor Materion Economaidd Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon gyfarfod yn y Senedd fel rhan o'i ymchwiliad i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc a chlywodd dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Ken Skates AC.
- 7 Awst Cyfarfu Rosemary Butler AC, y Llywydd, â Martín Buzzi, Llywodraethwr Talaith Chubut (yr Ariannin) a oedd yn ymweld â Chymru fel rhan o gyfres o gyfarfodydd cyn y digwyddiad y flwyddyn nesaf i ddathlu 150 o flynyddoedd ers i'r Cymry cyntaf symud i Batagonia.
- 16 Hydref Bydd Llysgennad yr Eidal, Ei Ardderchowgrwydd Pasquale Q Terracciano, yn ymweld â'r Cynulliad i roi tystiolaeth i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad am flaenoriaethau'r Eidal yn ystod ei llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

## Lincs

- Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Hysbysiad Busnes y Cynulliad
- Tudalennau'r pwyllgorau
- Tudalennau'r Gwasanaeth Ymch

## I gael rhagor o wybodaeth:

### Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa ([Gregg.Jones@cymru.gov.uk](mailto:Gregg.Jones@cymru.gov.uk))

**National Assembly for Wales EU Office**  
**Wales House**  
**6th Floor**  
**Rond Point Schuman 11**  
**1040 Brussels**  
**Belgium**

Ffôn **0032 2 226 66 92**

Symudol **0044 781 616 4455**

Dilynwch ni ar Twitter: [@SeneddEwrop](https://twitter.com/SeneddEwrop)

**Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel (Pedwerydd llawr)**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd CF99 1NA**

**0044 (0)29 2089 8642/8897**

**[TimRhyngwladol@Cymru.gov.uk](mailto:TimRhyngwladol@Cymru.gov.uk)**

### **Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb ichi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr bostio, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.